TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 9 Rhagfyr 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

1) Sawl cerbyd trên unigol sydd gan Trafnidiaeth Cymru yn 2021
2) Sawl taith drên wedi'i threfnu mae Trafnidiaeth Cymru yn eu rhedeg bob dydd yn 2021

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

1) Mae'r tabl isod yn nodi sawl uned sydd ym meddiant TrC ar 17 Tachwedd 2021. Mae gennym 135 o unedau gwahanol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio i weithredu'r gwasanaeth dyddiol ochr yn ochr â rheoli gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio ac addasiadau. Er ein bod hefyd wedi'n cyfyngu o ran ble y gellir rhedeg pob math o uned, defnyddir unedau i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl ohonynt.

| Math o Fflyd | Nifer yr Unedau | Nifer y Cerbydau |
|---|---|---|
| Class. 150 | 36 | 72 |
| Class. 153 | 26 | 26 |
| Class. 158 | 24 | 48 |
| Class. 170 (2 gerbyd) | 3 | 6 |
| Class. 170 (3 cherbyd) | 8 | 24 |
| Class. 175 (2 gerbyd) | 11 | 22 |
| Class. 175 (3 cherbyd) | 16 | 48 |
| Class. 769 | 8 | 32 |
| Mk4 Loco a Stoc | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | **135** | **290** |

2) Mae nifer y gwasanaethau a archebir yn amrywio o ddydd i ddydd. Gall hyn fod am nifer o resymau, fel gwaith peirianyddol. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer cyfartalog y teithiau a archebir yn ystod dyddiau'r wythnos, dyddiau Sadwrn a dyddiau Sul. Mae hyn ar gyfer diwrnodau yn 2021 hyd at 17/11/21 (dyddiad y darparwyd yr wybodaeth hon).

| Diwrnod o'r Wythnos | Nifer Cyfartalog y Teithiau a Archebwyd 2021 |
|---|---|
| Dyddiau'r wythnos | 711 |
| Dydd Sadwrn | 701 |
| Dydd Sul | 443 |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".